# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## Dydd Gwener, 4 Gorffennaf 2014  (10.30 o'r gloch)

Gweler ynghlwm os gwelwch yn dda yr adroddiad sydd wedi cael ei ddynodi fel un  “I DDILYN” ar raglen y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig:

**5** **YR UNED DDARPARU AAA** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno adroddiad ar weithgareddau’r Uned Ddarparu AAA yn ystod tymor y Gwanwyn, 2014. *(Adroddiad i ddilyn)*

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig |
| **DYDDIAD:** | 4ydd o Orffennaf 2014 |
| **TEITL YR ADRODDIAD**: | Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA |
| **GWEITHREDU**: | Ystyried yr adroddiad |

**CEFNDIR**: Disgrifir gwaith Uned Ddarparu'r Cydbwyllgor AAA yn ystod Tymor yr Gwanwyn 2014

# Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA

## Tymor y Gwanwyn 2014

### 1.0 Gweinyddu Prosesau Asesu ac Adolygu

Ar ddechrau'r tymor, roedd y tîm gweinyddol yn llawn, yn cynnwys dau oedd wedi eu hapwyntio'r tymor blaenorol, a'r Uwch Swyddog Gweinyddol, a oedd ar secondiad dros dro. Roedd y gwaith yn mynd yn ei flaen yn dda ac roedd y tîm yn ymateb yn dda i'r datblygiadau newydd, yn cynnwys defnyddio fersiwn newydd o'r bas data ONE.

Ym mis Mawrth gadawodd yr Uwch Swyddog Gweinyddol a dychwelyd i'w swydd flaenorol. Rydym yn dymuno bob llwyddiant iddi a hoffem fynegi'n gwerthfawrogiad o'r gwaith mae wedi ei gyflawni, yn enwedig wrth gyflwyno syniadau newydd am ail strwythuro'r system weinyddol.

Yn sgîl hyn, trefnwyd i rannu'i dyletswyddau rhwng aelodau eraill o'r tîm, ac y fwy penodol, trefnu i'r swyddog gweinyddol fwyaf gymryd rôl oruchwyliol yn y swyddfa, fel trefniant dros dro. Hefyd, dechreuodd y broses o hysbysebu i lenwi'r swydd tan fis Mawrth 2015, pan fydd secondiad yr Uwch Swyddog Gweinyddol yn dod i ben.

### 2.0 Gwasanaeth Athrawon Arbenigol

Hysbysebwyd am athrawon arbenigol newydd mewn tri maes, sef ar gyfer plant ag anawsterau mewn iaith a chyfathrebu ac awtistiaeth, plant ag anawsterau golwg, plant ag anawsterau clyw.

Penodwyd athrawes newydd i ymuno â'r tîm anawsterau iaith a chyfathrebu ac awtistiaeth, i ddechrau ar ôl y Pasg, a bydd hi'n dechrau ar gwrs hyfforddiant ym mis Medi. Rydym yn falch o'i chael i'r gwasanaeth.

Ni chafwyd ceisiadau cryf i'r swyddi yn y timau anawsterau golwg a chlyw, ac felly fe ail hysbysebwyd am y swyddi hyn, yn allanol y tro yma.

Yn ystod y tymor tarwyd un o'r ddwy athrawes plant â nam ar y golwg yn wael iawn, a bu'n absennol am y rhan fwyaf o'r tymor. Roedd hyn yn anodd iawn i'r athrawes arall, yn ceisio gwneud peth o'i gwaith yn ogystal â'i gwaith ei hun. Fel aeth amser yn ei flaen dwysaodd y sefyllfa hon, er bod cymhorthydd profiadol yn gweithio efo'r gwasanaeth y rhan-amser.

Roedd y sefyllfa'n arbennig o ddwys oherwydd roedd nifer o blant dall yn trosglwyddo i'r uwchradd, ac mae plant hyn angen mewnbwn rheoliad dwys, yn arbennig wrth gan eu bod angen mynediad i'r cwricwlwm trwy gyfrwng Braille. O fis Medi ymlaen bydd saith o blant dall yn ein hysgolion uwchradd.

## 3.0 Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

**Hyfforddi seicolegwyr i'r dyfodol**

Fel y byddwch yn cofio, yn ystod y cyfarfod diwethaf, trafodwyd y posibilrwydd o drefnu i'r tair seicolegwraig cynorthwyol sydd yn gweithio i'r gwasanaeth fynychu cwrs hyfforddi, er mwyn sicrhau cyflenwad o seicolegwyr i'r dyfodol.

Mae dwy o'r seicolegwyr cynorthwyol wedi cael lle ar y cwrs yng Nghaerdydd o fis Medi ymlaen (cwrs tair blynedd). Penderfynodd y drydedd nad oedd am drio mynd ar gwrs eleni, a byddai'n well ganddi hi aros efo ni fel seicolegydd cynorthwyol am flwyddyn arall.

Mae un wedi cael lle 'heb ei gyllido'; h.y. mae'n cael mynd ar y cwrs ond does dim cefnogaeth ariannol ar gael iddi.

Mae'r llall wedi cael lle 'wedi ei gyllido'. Mae hyn yn golygu y bydd Llywodraeth Caerdydd yn talu'r ffioedd, a hefyd yn talu bwrsari o £12 800 y flwyddyn.

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio efo 1.4 llai o seicolegwyr nag sydd gennym fel arfer, (y 'sefydliad'). Rydym wedi bod yn aflwyddiannus yn llenwi'r swyddi hyn, ac wedi cyflogi 3 seicolegydd cynorthwyol yn eu lle

| graddfa cyflog seicolegydd addysgol | cyfartaledd | cyflog 1.4 seicolegydd addysgol |
|---|---|---|
| £34 273 - £47 778 | £41 151 | **£57 611** |
| graddfa seicolegydd cynorthwyol | flwyddyn gyntaf | Cyflog 3 seicolegydd cynorthwyol |
| £27 067 – £30 377 | £27 067 | £81 201 |

Felly, eleni, rydym yn defnyddio £23 590 yn ychwanegol i arian arferol y gwasanaeth seicolegol. Mae cytundeb y tair yn dod i ben yn yr haf. Ffigurau am gyflogau yn unig yw'r rhain, ac wrth gwrs byddai cost cyflogaeth yn fwy.

I gefnogi'r seicolegwraig sydd wedi cael lle 'wedi ei gyllido' yn ariannol ar y cwrs yng Nghaerdydd, gellir ei chyflogi fel seicolegydd tan hyffordiant (*trainee psychologist*) yn lle seicolegydd cynorthwyol (*assistant psychologist*) o fis Medi ymlaen. Byddwn felly yn ychwanegu at y bwrsari fel ei bod yn cael cyflog cyfartal â seicolegydd tan hyfforddiant.

| Cyflog seicolegydd tan hyfforddiant £22 019 - £30 075 | Bwrsari Prifysgol Caerdydd | Cost i'r Cydbwyllgor |
|---|---|---|
| Flwyddyn gyntaf £22 019 | £12 800 | **£9 219** (22 019 – 12 800) |
| Ail flwyddyn £23 631 | £12 800 | **£10 831** (23 631 – 12 800) |
| Trydedd flwyddyn £25 | £12 800 | **£12 441** (25 241 – 12 800) |

| | | |
|---|---|---|
| 241 | | |

I gefnogi'r seicolegwraig sydd wedi cael lle 'heb ei gyllido' yn ariannol ar y cwrs yng Nghaerdydd, gellir ei chyflogi hithau fel seicolegydd tan hyfforddiant, a thalu ei ffioedd, sydd oddeutu £9 000 y flwyddyn.

| Cyflog seicolegydd tan hyfforddiant<br>£22 019 - £30 075 | Ffioedd | Cost i'r Cyd-Bwyllgor |
|---|---|---|
| Flwyddyn gyntaf £22 019 | £9 000 | **£31 019** (22 019 + 9 000) |
| Ail flwyddyn £23 631 | £9 000 | **£32 631** (23 631 + 9 000) |
| Trydedd flwyddyn £25 241 | £9 000 | **£34 241** (25 241 + 9 000) |

Felly, i gefnogi'r ddwy, byddai'n costio fel a fanylir isod, sydd yn llai na byddai 1.4 seicolegydd llawn yn eu costio

| Flwyddyn gyntaf | Ail flwyddyn | Trydedd flwyddyn |
|---|---|---|
| **£40 238** (£19 219 + £31 019) | **£43 462** (£10 831 + £32 631) | **£46 682** (£12 441 + £34 241) |

Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i ni weithredu efo 1.4 seicolegydd yn llai am dair blynedd, ond rydym yn y Gwasanaeth Seicolegol yn teimlo bod yn aberth sy'n werth ei wneud, gan y ein bod yn gallu edrych ymlaen at gael dwy seicolegwraig newydd ym mhen y cyfnod yma.

Bydd rhan o waith maes y ddwy fyfyrwraig yn cymryd lle yn lleol, felly nid ydym yn colli eu gwasanaeth yn llwyr.

**Hyfforddiant i'r tîm**

Yn ystod y tymor bu'r rhan fwyaf o'r seicolegwyr yn mynychu cwrs yn y dull o drefnu cyfarfodydd a elwir yn *PCP*. *Person-Centred Planning* yw ystyr *PCP* (Cynllunio Person-Ganolig).

Mae hyn yn ffordd eithaf anffurfiol o drefnu cyfarfodydd, er enghraifft cyfarfodydd i ystyried a ydy'r trefniadau presennol ar gyfer diwallu anghenion plentyn yn briodol o hyd. Fel mae'r enw'n awgrymu, trefnir y cyfarfodydd adolygu oddeutu'r unigolyn tan sylw. Mae'n ddull sydd y cael ei annog gan y Llywodraeth yng Nghaerdydd. Mae nifer ohonom ni erbyn yn gallu gweithredu'r dull, a'r cam nesaf yw hyfforddi bellach fel ein bod yn gallu hyfforddi eraill yn ei ddefnydd.

Felly rydym yn bwriadu trefnu mwy o hyfforddiant yn y dyfodol agos, i hyfforddi cydlynwyr ac athrawon eraill, yn anelu at sicrhau y bydd rhai o'n seicolegwyr, a rhai athrawon, gallu hyfforddi eraill yn y defnydd o'r dechneg hon, gan feddwl am ei lledaenu yn ein hysgolion i'r dyfodol.

## 4.0 Gwybodaeth ychwanegol

Rydym wedi casglu data ar faint o ddatganiadau sydd wedi eu cwblhau o fewn cyfnod o 26 wythnos, am Wynedd yn unig, o Fedi 2013 hyd y presennol. Mae anawsterau dod o hyd i'r ffigurau ar gyfer Ynys Môn ar hyn o bryd gan fod Môn yn newid o un system o gofnodi data i system arall. Mae'r ffigurau ychydig yn is na maen nhw'n arfer bod.

**Gwynedd:**
Canran y datganiadau terfynol yn cynnwys eithriadau –
O fewn 26 wythnos = 19
Cyfanswm : 41
45.2%

Canran y datganiadau terfynol **ddim** yn cynnwys eithriadau-
O fewn 26 wythnos = 11
Cyfanswm : 16
68.8%